Newid y rheolau ardystio yn y TGAU gwyddorau

Yn dilyn cytundeb rhwng CBAC a'r Cyrff Dyfarnu eraill mae'r rheolau ardystio ac ailardystio yn newid, ar unwaith, yn y pynciau TGAU gwyddoniaeth canlynol:
TGAU Gwyddoniaeth
TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol
TGAU Bioleg
TGAU Cemeg
TGAU Ffiseg

Ailardystio
Yn dilyn ardystio ('cyfnewid') mae'n bosibl erbyn hyn i ymgeisydd gymryd un neu fwy o unedau unrhyw un o'r pynciau gwyddoniaeth hyn eto ac i wneud cais i gael ail-agregu ac ardystio'r un teitl pwnc. Hyd yn hyn, yn ôl y rheol, roedd rhaid cymryd **pob** uned eto. Nid yw hyn yn wir mwyach.

Enghraifft: Mae ymgeisydd wedi 'cyfnewid' TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol ac yn dymuno gwella ei gradd ar ôl hynny. Mae'n ailgymryd Cemeg 2 ac Asesiad Allanol y Gwyddoniaeth Ychwanegol ac yn gofyn am ail-agregiad. Mae'r unedau a gymerwyd yn flaenorol yn dal i gyfrif tuag at y cymhwyster. Y canlyniadau sy'n cael eu defnyddio tuag at yr agregiad newydd yw'r rhai â'r marc unffurf mwyaf ym mhob uned.

Noder y pwyntiau canlynol:

- Fel arfer, nid yw'n bosibl i ganolfan wneud cais am ail-agregiad oni bai bod o leiaf un uned yn cael ei chymryd eto.
- Ni all ymgeiswyr wrthod gradd.
- Unwaith y bydd canlyniad uned wedi'i ddefnyddio, fel rhan o agregiad tuag at deitl cymhwyster penodol, ni ellir ei ddefnyddio wedyn ar gyfer teitl gwahanol, e.e. yn yr enghraifft uchod. Os yw'r canlyniad Cemeg 2 newydd yn welliant ac yn cymryd lle'r Cemeg 2 gwreiddiol, ni ellir defnyddio'r canlyniad gwreiddiol ar ôl hynny mewn agregiad TGAU Cemeg.

Ardystio Pwnc Gwyddonol Unigol a Gwyddoniaeth a/neu Gwyddoniaeth Ychwanegol ar yr un pryd

Mae'n bosibl erbyn hyn i 'gyfnewid' sawl cymhwyster yn yr un sesiwn, hyd yn oed os oes gan y cymwysterau unedau cyffredin. Ni fu'n bosibl gwneud hyn hyd yn hyn.

Enghraifft: Mae ymgeisydd wedi casglu'r canlyniadau uned canlynol: Bioleg 1, Cemeg 1, Ffiseg 1, Asesiad Mewnol Gwyddoniaeth, Ffiseg 1, Ffiseg 2, Ffiseg 3, Asesiad Mewnol Ffiseg.
Gall yr ymgeisydd hwn gyfnewid Gwyddoniaeth a Ffiseg ar yr un pryd.

Gweithredir y rheol ganlynol

- Wrth 'gyfnewid' pwnc gwyddonol unigol a Gwyddoniaeth a/neu Gwyddoniaeth Ychwanegol, 'cyfnewidir' y pwnc gwyddonol unigol yn gyntaf. Yn yr enghraifft uchod, byddai'r gorau o'r ddau ganlyniad Ffiseg 1 yn cyfrannu at y TGAU Ffiseg. Byddai'r canlyniad Ffiseg 1 oedd ar ôl yn cyfrannu at y TGAU Gwyddoniaeth.

19 Chwefror 2008
Gareth Kelly
gareth.kelly@wjec.co.uk
029 2026 5081